SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

**Cylchlythyr #50 SCHTh Gogledd Cymru – 09 Awst 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #50 – 09 August 2024**

## Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru yn nodi blwyddyn o godi llais y dioddefwr mewn plismona a chyfiawnder troseddol

Flwyddyn yn ôl, cyflawnodd Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) addewid maniffesto allweddol wrth greu Panel Dioddefwyr ar gyfer Gogledd Cymru. Perwyl y CHTh oedd sefydlu'r panel er mwyn rhoi "cyfle i ddioddefwyr a goroeswyr ddweud wrthym ni'r hyn y gellir ei wneud yn well a dal y CHTh, yr heddlu a'r asiantaethau yn atebol.

Rŵan, yn dilyn blwyddyn o gynnydd a gweithredu, cyfarfu'r panel eto ar 31 Gorffennaf er mwyn helpu darparu hyd yn oed fwy o help i ddioddefwyr troseddau a gwneud yn siŵr bod eu llais yn cael ei glywed. Mae'r panel wedi cyfarfod bob chwarter ers ei lansio yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno. Hyd yn hyn, mae 18 o ddioddefwyr wedi rhannu eu profiadau o blismona a'r system cyfiawnder troseddol hefo'r nod o wella gwasanaethau i bobl eraill sy'n mynd drwy'r un broses.

Mae'r panel yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Wayne Jones, ac yn bresennol mae staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) ac yr elusen Victim Support sy'n ddarparu Canolfan Cymorth Dioddefwyr (VHC). **Darllenwch fwy yma.**



## Victims' Panel marks one year of raising the victim's voice in policing and criminal justice

A year ago, North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin fulfilled a key manifesto pledge with the creation of a Victims' Panel for North Wales. The PCC's mission was to set up the panel to give an "opportunity for victims and survivors to tell us what can be done better and to hold the PCC, the police and wider agencies to account."

Now, following a year of progress and action, the panel met again on 31 July to help deliver even more support for victims of crime and to ensure their voice is heard. The panel has met each quarter since launch at Conwy Business Centre in Llandudno Junction and, so far, 18 victims have shared their experiences of policing and the criminal justice system with the aim of improving services for others going through the same process.

The panel is chaired by the Deputy Police and Crime Commissioner, Wayne Jones, and attended by staff from the Office of the Police and Crime Commissioner (OPCC), and the charity Victim Support, who deliver the Victim Help Centre (VHC). **Read more here.**

---

## Y CHTh yn gweld sut mae prosiect yn Nhreffynnon yn dargyfeirio pobl ifanc o helyntion

Ddydd Mercher, 17 Gorffennaf, gwnaeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, gyfarfod hefo cynrychiolwyr o Gyngor Tref Treffynnon yng Nghanolfan Hamdden y dref er mwyn dysgu mwy am lwyddiant eu prosiect atal ymddygiad gwrthgymdeithasol nhw. Mae'r fenter, sy'n cael ei hariannu gan gronfa Eich Cymuned, Eich Dewis, wedi bod yn cael argraff gadarnhaol ar y gymuned leol ers dros flwyddyn.

Mae Eich Cymuned, Eich Dewis yn helpu sefydliadau ar lawr gwlad ar draws y rhanbarth ac yn cael help Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r arian ar gyfer Eich Cymuned, Eich Dewis yn dod yn rhannol oddi wrth arian sydd wedi ei atafaelu drwy'r llysoedd drwy Ddeddf Enillion Troseddau gyda'r gweddill o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ers dechrau Eich Cymuned, Eich Dewis dros un mlynedd ar ddeg yn ôl, mae bron i £600,000 wedi cael ei roi i 200 o brosiectau sy'n gweithio er mwyn lleihau troseddau yn eu bröydd a helpu'r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae'r prosiect yn Nhreffynnon, sy'n ceisio dargyfeirio pobl ifanc o drosedd, yn darparu lle saff i ieuenctid gyfarfod mewn lleoliad anffurfiol. Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys chwaraeon, celf a chrefft, anturiaethau awyr agored, a chyfranogiad cymunedol, i gyd wedi'u cynllunio mewn ymgynghoriad hefo'r bobl ifanc eu hunain. **Darllenwch fwy yma.**



## PCC sees how Holywell project steers young people away from trouble

On Wednesday, July 17, Police and Crime Commissioner for North Wales, Andy Dunbobbin, met representatives from Holywell Town Council at the town's Leisure Centre to learn more about the success of their antisocial behaviour prevention project. The initiative, funded by the Your Community, Your Choice fund, has been making a positive impact on the local community for over a year.

Your Community, Your Choice supports grass-roots organisations across the region and is backed by the North Wales Police and Crime Commissioner, North Wales Police and Community Trust and North Wales Police. The funding for Your Community, Your Choice comes partly from money seized by the courts through the Proceeds of Crime Act, with the rest from the Police and Crime Commissioner. Over the eleven years since Your Community, Your Choice started, almost £600,000 has been awarded to nearly 200 projects working to reduce crime in their neighbourhoods and to support the priorities in the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plan.

The project in Holywell, which aims to steer young people away from crime, provides a safe space for youth to meet in an informal setting. It offers a variety of activities, including sports, arts and crafts, outdoor adventures, and community involvement, all designed in consultation with the young people themselves. **Read more here.**

---

### Arolwg Ymgynghoriad Cyhoeddus Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2024

Cyfle i ddweud eich dweud wrth lunio strategaeth blismona leol!

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cynnal arolwg ar flaenoriaethau plismona. Mae'r arolwg hwn yn gyfle i chi leisio'ch barn ar ddatblygiad strategaethau plismona i fynd i'r afael ag anghenion penodol Gogledd Cymru.

Dim ond 5 munud o amser y bydd yr arolwg yn ei gymryd, a bydd eich ymatebion yn chwarae rhan arwyddocaol wrth arwain mentrau plismona yn y dyfodol a dyrannu adnoddau.

**Cliciwch yma i gyflwyno eich ymateb.**



### North Wales Police and Crime Commissioner Public Consultation 2024

Have your say in shaping local policing strategy!

The Office of the Police and Crime Commissioner for North Wales is surveying the public on policing priorities. This survey is a chance for you to make your voice heard on the development of policing strategies to address the specific needs of North Wales.

The survey will only take 5 minutes of your time, and your responses will play a significant role in guiding future policing initiatives and resource allocation on the island.

**Click here to submit your response.**

---

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy